# DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN CYNGOR GWYNEDD 2022/23

**Rhagarweiniad**

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus, gan ein gweithlu a trwy nifer fawr o gyflenwyr a chontractwyr.

Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Mae Cyngor Gwynedd yn parhau hefo ein hymrwymiad i wneud ein gorau i ddileu ymarferion annheg ac anghyfreithlon o ein cadwyni cyflenwi.

Am wybodaeth pellach ar Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru, ymwelwch â :Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | LLYW.CYMRU

**Beth ydy Caethwasiaeth Fodern?**

Caethwasiaeth Fodern yw cam-fanteisio anghyfreithlon ar bobl er budd personol neu fasnachol. Gall fod ar un o'r ffurfiau canlynol:

- Puteindra gorfodol
- Masnachu plant
- Camfanteisio troseddol
- Caethwasiaeth domestig
- Llafur gorfodol
- Gwerthu organau
- Camfanteisio'n rhywiol

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod cyfrifoldeb arno fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i adrodd ar achosion o'r fath i'r cyrff perthnasol.

Yn 2021/22 cyfeiriwyd 166 o achosion o erledigaeth oedolyn i Heddlu Cymru i'w ymchwilio. Derbyniwyd 26 achos bosib o gaethwasiaeth fodern / fasnachu pobl gan Heddlu Gogledd Cymru ger y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol am ymchwiliad pellach, gyda 3 o rhain o fewn Gwynedd.

**Cynnydd hyd yma** :

Mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gwblhau nifer o'r ymrwymiadau yn y Cod. Gweler ein cynnydd ger y linc isod:

Adroddiad-Cynnydd-Cod-Ymarfer-Cyflogaeth-Foesegol-2021-22-C.pdf (llyw.cymru)

**Cynllun Gweithredu 2022/23**

Bydd y Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad i'r Cod Ymarfer a byddem yn datblygu mesurau diogelu pellach yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio sicrhau rydym yn darganfod nwyddau a gwasanaethau yn foesegol.

**Cyfeirio**

Mae gan y cyhoedd a staff yr un cyfrifoldeb i fod yn effro i achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnesau sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag unrhyw un o'r cyrff a ganlyn :-

| | | |
|---|---|---|
| **Heddlu Gogledd Cymru** | **:** | **Cysylltu â 101 (neu 999 mewn Argyfwng)** |
| **Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern** | **:** | **Cysylltu â 0800 0121700** |
| **Crimestoppers** | **:** | **Cysylltu â 0800 555 111** |
| **Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl, Cyngor Gwynedd** | **:** | **Cysylltu â 01766 771000** |